

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

Adroddiad ar Fil Tai (Cymru)

Mawrth 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8242
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: CLA.Committee@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

Adroddiad ar Fil Tai (Cymru)

Mawrth 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cylch gwaith a phwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 15 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol ac arfer ei bwerau fel y'u nodir yn y Rheolau Sefydlog. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw faterion deddfwriaethol cyffredinol eu natur sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru neu sy'n ymwneud â'r cymhwysedd hwnnw, a chyflwyno adroddiadau arnynt.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



David Melding (Cadeirydd)

Dirprwy Lywydd
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Suzy Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Julie James

Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



Eluned Parrott

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



Simon Thomas

Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhelliadau.....	5
1. Cyflwyniad	6
Cylch gwaith y Pwyllgor	6
Cyflwyno'r Bil	6
2. Cefndir.....	7
3. Cymhwysedd deddfwriaethol.....	8
Ein barn	8
4. Sylwadau cyffredinol	9
Ein barn ni.....	9
5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth – sylwadau ar bwerau penodol.....	10
Rhan 1 – Sector Rhentu Preifat	10
Adrannau 2 – Ystyr y prif dermau; 6 – Dyletswydd i gynnal cofrestr mewn perthynas ag eiddo ar rent; 7 – Cofrestru gan awdurdod tai lleol; 10 – Gofynion cais am drwydded; 11– Gofyniad person addas a phriodol a 13 – Penderfynu ar gais	10
Ein barn ni.....	13
Adran 28 – Cod ymarfer	13
Ein barn ni.....	15
Adran 29 – Canllawiau	15
Ein barn ni.....	16
Adran 30 – Cyfarwyddiadau	17
Ein barn ni.....	17
Adran 31– Rheoliadau ar ffioedd.....	17
Ein barn ni.....	19
Rhan 2 – Digartrefedd.....	19
Adran 36 – Dyletswydd i gynnal adolygiad digartrefedd a llunio strategaeth ddigartrefedd.....	19
Ein barn ni.....	20

Pennod 2 – Cymorth i bobl sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd ac Adran 69 – Gweithdrefn ar gyfer adolygiad	20
Ein barn ni.....	22
Adran 81 – Canllawiau	22
Ein barn	22
Rhan 3 – Sipsiwn a Theithwyr	23
Adran 89 - Canllawiau	23
Ein barn ni.....	23
Rhan 4 – Safonau ar gyfer Tai Cymdeithasol	23
Adrannau 94 – Safonau; 95 – Canllawiau; 96 – Ymgynghori ar safonau a chanllawiau	23
Ein barn ni.....	26
Rhan 7 – Y Dreth Gyngor ar gyfer Anheddau Gwag	27
Adran 122 – Swm y dreth sy'n daladwy ar gyfer anheddau gwag	27
Ein barn ni.....	28
Rhan 8 – Amrywiol a Chyffredinol	28
Adran 127 – Cychwyn	28
Ein barn ni.....	29

Argymhelliadau

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol yn y lle cyntaf i wneud rheoliadau o dan adrannau 7(1), 7(1)(b) ac adran 10(2)(b), yna'r weithdrefn negyddol wedi hynny. (Tudalen 13)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil a fyddai'n golygu cael cymeradwyaeth y Cynulliad cyn tynnu cod yn ôl o dan adran 28(8). Dylai hyn gymryd lle'r defnydd o gyfarwyddyd o dan yr adran honno a byddai'n gyson â'r gofyniad am gymeradwyaeth i gyflwyno cod yn unol ag adran 28(6). (Tudalen 15)

Argymhelliad 3. Yn absenoldeb manylion ar wyneb y Bil ac o ystyried bod materion ariannol yn gysylltiedig â hyn, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i reoliadau a wneir o dan adran 7(1)(c) ac adran 10(2)(c). (Tudalen 19)

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 69(1). (Tudalen 22)

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i bennu safonau o dan adran 94 drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys iddi. (Tudalen 26)

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i sicrhau bod y bwriad sy'n sail i adran 95(2) wedi'i ddatgan yn fwy eglur ar wyneb y Bil. (Tudalen 27)

1. Cyflwyniad

Cylch gwaith y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("y Pwyllgor") yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodwyd yn Rheol Sefydlog 21¹ ac ystyried unrhyw faterion cyfansoddiadol neu lywodraethol eraill sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru neu sy'n ymwneud â'r cymhwysedd hwnnw.
2. O fewn y cylch gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol yr offerynnau hynny. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offerynnau yn unol ag ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21.
3. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau ym Miliau'r Cynulliad ac ym Miliau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol i wneud is-ddeddfwriaeth, ac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny.

Cyflwyno'r Bil

4. Ar 18 Tachwedd 2013, cyflwynodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio ("y Gweinidog") Fil Tai (Cymru) ("y Bil") a Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.²
5. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad y Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'w ystyried ar 21 Tachwedd 2013, gan osod terfyn amser, sef 21 Mawrth 2014, ar gyfer cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.
6. Ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Bil yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2014, gan glywed tystiolaeth gan y Gweinidog a dau swyddog.

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Rhagfyr 2012

² Llywodraeth Cymru, Bil Tai (Cymru): Memorandwm Esboniadol yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Tachwedd 2013

2. Cefndir

7. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd y Bil:

“...yn cyfrannu at dair blaenoriaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer tai, sef: mwy o gartrefi, gwell cartrefi a gwell gwasanaethau. Yn gyffredinol, bydd yn helpu i sicrhau y bydd unigolion yn gallu cael gafael ar gartref fforddiadwy, boddhaol a bod unigolion sydd mewn perygl o ddigartrefedd yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt.”³

8. Yn benodol, bydd y Bil:

“...yn moderneiddio'r sector rhentu preifat a bydd yn rhoi mwy o bwyslais ar gymryd camau i atal pobl rhag bod yn ddigartref. Bydd hefyd yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol... gyflwyno cyfradd uwch o dreth gyngor fel ffordd arall o fynd i'r afael â phroblem cartrefi gwag a'r effaith ar y cyflenwad tai lleol mewn rhai ardaloedd. Gosodir dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr mewn ymateb i angen a nodwyd, a bydd y Bil yn helpu i ehangu'r sector tai cydweithredol drwy wella'r trefniadau ar gyfer pobl sydd am ymuno â chydweithrediaeth neu ei gadael. Bydd yn pennu safonau ar gyfer rhenti awdurdodau lleol, taliadau gwasanaeth ac ansawdd llety ac yn helpu i sicrhau y cyrhaeddir Safon Ansawdd Cymru. Yn olaf, bydd yn diddymu system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, gan alluogi awdurdodau lleol i fod yn hunangyllidol.”⁴

³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1

⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.2

3. Cymhwysedd deddfwriaethol

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod cymhwysedd gan y Cynulliad Cenedlaethol:

- i ddarparu ar gyfer Tai, ac mewn cysylltiad â Thai, yn rhinwedd adran 108 o atodlen 7, o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*; ac
- i wneud darpariaethau ynghylch Llywodraeth Leol yn rhinwedd paragraff 12 o atodlen 7 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.⁵

10. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“...the housing element is a devolved function of the Welsh Government. We are satisfied, as are the Presiding Officer and the UK Government, regarding the competence of this Bill as it goes forward.”⁶

Ein barn

11. Rydym yn nodi na chodwyd unrhyw faterion gyda'r Gweinidog mewn perthynas â gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud y ddeddfwriaeth hon o dan Atodlen 7 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 2.1–2.3

⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (“MCD”), Cofnod y Trafodion [*paragraff 13*], 20 Ionawr 2014

4. Sylwadau cyffredinol

12. Gofynnwyd i'r Gweinidog ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i adael i'r rheoliadau. Dywedodd:

“We have endeavoured to put as much detail on the face of the Bill as possible in this process. The detail of the technical matters has been left to the Order and regulation-making powers ...

“...we believe on merit that, as presented, the Bill is well-balanced and able to deal with the challenges that we face in terms of the face element of the Bill and the need to be nimble and have the ability to change as and when required.”⁷

Ein barn ni

13. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog. At ei gilydd, credwn fod y Bil yn cyflawni'r cydbwysedd iawn rhwng y manylion a'r amcanion polisi sydd wedi'u cynnwys ar ei wyneb a'r hyn sydd wedi'i adael i'w wneud drwy is-ddeddfwriaeth.

14. Rydym yn croesawu dull y Gweinidog o weithredu ac ystyriwn fod amcanion polisi'r Bil wedi'u gosod allan yn weddol eglur ar ei wyneb.

15. Rydym yn nodi bod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at 28 pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ac ystyriwn fod hynny'n nifer sylweddol. Fodd bynnag, ceir llawer mwy o eglurder nag a geir mewn Biliau blaenorol ynglŷn â sut i ddefnyddio'r pwerau ac at ba ddiben, gan nodi cyfeiriad polisi eglur.

16. Yn ein barn ni, mae dull o'r fath yn welliant o ran y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn drafftio'i Biliau. Ar ôl dweud hynny, rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio'n eglur bob amser pam y mae angen cynnwys nifer sylweddol o bwerau dirprwyedig, waeth faint o fanylder a osodir ar wyneb y Bil.

17. Gobeithiwn fod y dull hwn o fynd ati yn arwydd o symud bwriadol oddi wrth y Biliau ysgerbwd neu fframwaith a ystyriwyd gennym hyd yma yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

⁷ Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 10-11]*, 20 Ionawr 2014

5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth – sylwadau ar bwerau penodol

18. Mae'r Bil yn cynnwys 128 o adrannau a 3 Atodlen ac mae wedi'i rannu'n 8 Rhan.

19. Mae'r Bil yn cynnwys 28 o bwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau. Ceir crynodeb ohonynt yn Rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol. Hefyd, mae'r Bil yn darparu pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru gyflwyno safonau, canllawiau a chyfarwyddiadau.

20. Mae'r Bennod hon yn canolbwyntio ar y pwerau hynny sydd o'r diddordeb pennaf, ac yn peri'r pryder mwyaf i ni.

21. Mae absenoldeb argymhelliad neu sylw mewn perthynas â'r defnydd o weithdrefn benodol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth yn arwydd ein bod yn fodlon â'r weithdrefn a ddewiswyd.

Rhan 1 – Sector Rhentu Preifat

Adrannau 2 – Ystyr y prif dermau; 6 – Dyletswydd i gynnal cofrestr mewn perthynas ag eiddo ar rent; 7 – Cofrestru gan awdurdod tai lleol; 10 – Gofynion cais am drwydded; 11 – Gofyniad person addas a phriodol a 13 – Penderfynu ar gais

22. Mae'r adrannau hyn yn ymwneud ag agweddau ar gofrestru a thrwyddedu.

23. Mae adran 2 yn nodi ystyr termau fel eiddo ar rent, landlord, asiant, person cyfrifol a gosod. Mae adran 2(4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio diffiniad "eiddo ar rent" yng Nghymru drwy Orchymyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol oherwydd:

“...gallai unrhyw newid i'r diffiniad o “eiddo rhent” newid cwmplas y gofynion cofrestru a thrwyddedu.”⁸

24. Mae adran 6 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau tai lleol greu a chynnal cofrestr o landlordiaid y sector tai rhentu preifat, eiddo ar rent a phersonau cyfrifol ac asiantau cofrestredig. Mae adran 6(4) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r categorïau o wybodaeth a gedwir ar y gofrestr o bryd i'w gilydd ac i ddiwygio'r hyn sy'n agored

⁸ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 47

i'r cyhoedd ei weld, drwy orchymyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol am ei fod yn caniatáu:

“...i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei diwygio ac... [mae'n] ymwneud â chasglu manylion personol penodol am unigolion ac â rhyddhau'r manylion hynny i eraill.”⁹

25. O dan adran 7, os yw person yn gwneud cais i fod yn gofrestredig mewn perthynas ag eiddo ar rent a'i fod yn darparu'r wybodaeth a'r ffi ofynnol, rhaid i'r awdurdod tai lleol ganiatáu'r cais, a neilltuo rhif cofrestru ar gyfer y ceisydd. Yna, bydd yr awdurdod tai lleol yn cynnwys y ceisydd ar y gofrestr fel landlord cofrestredig, person cyfrifol cofrestredig neu asiant cofrestredig.

26. Mae adran 7(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu cyfnod o amser i geisydd gael ei gofrestru gan awdurdod tai lleol, drwy reoliadau. Mae adran 7(1)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, drwy reoliadau, y wybodaeth sydd ei hangen ar awdurdod tai lleol wrth benderfynu ar gais cofrestru. Mae'r ddau bŵer i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, am eu bod, yn ôl y Memorandwm Esboniadol, yn rhagnodi “manylion technegol a all newid o bryd i'w gilydd”.¹⁰ Mae adran 7(1)(c) yn cyflwyno pŵer i ragnodi ffioedd mewn perthynas â cheisiadau i fod yn gofrestredig, sy'n cael sylw yn adran 31 isod.

27. Mae adran 10 yn darparu y caiff person sydd wedi gwneud cais i fod yn gofrestredig wneud cais hefyd i fod yn drwyddedig gan yr awdurdod tai lleol i reoli eiddo ar rent. Mae adran 10(2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, drwy reoliadau, y wybodaeth sydd ei hangen ar awdurdod tai lleol wrth benderfynu ar gais am drwydded. Mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol am eu bod, yn ôl y Memorandwm Esboniadol, yn rhagnodi “manylion technegol a all newid o bryd i'w gilydd”.¹¹ Mae adran 10(2)(c) yn cyflwyno pŵer i ragnodi ffioedd mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau, sy'n cael sylw yn adran 31 isod.

28. Mae adran 11 yn nodi, ar wyneb y Bil, y materion a'r dystiolaeth sydd i'w hystyried gan awdurdod tai lleol wrth benderfynu a yw'r sawl sy'n gwneud cais am drwydded yn berson addas a phriodol. Mae adran

⁹ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 47

¹⁰ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 48

¹¹ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 48

11(6) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio adran 11 drwy orchymyn er mwyn amrywio'r rhestr dystiolaeth sydd i'w hystyried. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol am ei fod yn caniatáu i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei diwygio ac mae'n ymwneud â gofyniad i ymgeiswyr ar gyfer trwyddedau ddangos eu bod yn bersonau addas a phriodol.¹²

29. Mae adran 13 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod tai lleol roi trwydded i geisydd sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn adran 10. Mae adran 13(4) yn darparu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru osod y cyfnod o amser, drwy reoliadau, i awdurdodau tai lleol benderfynu ar gais am drwydded. Mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol oherwydd eu bod, yn ôl y Memorandwm Esboniadol, yn rhagnodi "manyion technegol a all newid o bryd i'w gilydd".¹³

30. Gofynnwyd am esboniad gan y Gweinidog ynglŷn â'r sail resymegol dros amrywio'r defnydd o weithdrefnau negyddol a chadarnhaol yn yr adrannau hyn. Dywedodd:

"...the Bill is composite, and there are many elements to it. While we try to look across the whole Bill and build consistency into the approach to the decision-making processes and whether we choose the affirmative or negative procedure, there are elements of that that are specific to this Part, and this section relates to the private rented sector, which is why we specifically apply the negative and affirmative procedures."¹⁴

31. Dynododd y Gweinidog fod y pwerau i wneud gorchmynion yn adrannau 2, 6 ac 11 yn eang a bod potensial ganddynt i ehangu neu gyfyngu ar gwmpas y drefn ac oherwydd hynny, dylent fod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth prosesau craffu'r Cynulliad.¹⁵ Ar y llaw arall, dywedodd, nid yw adrannau 7 a 10 yn bodloni'r meini prawf hynny o ran yr angen am y fath lefel o graffu, felly aethpwyd i'r afael â'r rhain ar lefel ychydig yn wahanol.¹⁶

32. Ym Mhennod 4, nodwyd gwelliant gennym o ran faint o fanylder sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil o gymharu â biliau blaenorol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, aethom ati i holi'r Gweinidog ar y

¹² Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 48

¹³ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalennau 48-49

¹⁴ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 16]*, 20 Ionawr 2014

¹⁵ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 17]*, 20 Ionawr 2014

¹⁶ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 17]*, 20 Ionawr 2014

pwynt hwn mewn perthynas ag adrannau 7 a 10, ac awgrymwyd y gallai'r pwerau i wneud rheoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y lle cyntaf a'r weithdrefn negyddol wedi hynny i sicrhau bod y Cynulliad â syniad cliriach o feddwl Llywodraeth Cymru ar y mater. Nododd y Gweinidog fod hyn wedi cael ei ystyried ond mai lefel y weithdrefn negyddol sy'n briodol ar gyfer y Rhan hon o'r Bil ar y pwynt yma.¹⁷

Ein barn ni

33. Rydym yn fodlon â'r modd y cafodd y weithdrefn gadarnhaol ei chymhwyso i'r pwerau i wneud gorchmynion o dan adrannau 2, 6 ac 11, a'r weithdrefn negyddol i'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 13.

34. Rydym yn dal i fod yn aneglur ynglŷn â bwriadau polisi penodol Llywodraeth Cymru o ran eu cysylltiad â'r pwerau i wneud rheoliadau yn adrannau 7 a 10. Oherwydd hynny, credwn y dylai gwneud rheoliadau o dan yr adrannau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y lle cyntaf, yna'r weithdrefn negyddol wedi hynny, ac eithrio mewn perthynas ag adrannau 7(1)(c) a 10(1)(c).

Argymhelliad 1: rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol yn y lle cyntaf i wneud rheoliadau o dan adrannau 7(1), 7(1)(b) ac adran 10(2)(b), yna'r weithdrefn negyddol wedi hynny.

35. Mae gwneud rheoliadau o dan adrannau 7(1)(c) a 10(1)(c) yn cael sylw yn adran 31 isod (rheoliadau ynglŷn â ffioedd).

Adran 28 – Cod ymarfer

36. Mae adran 28 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cod ymarfer yn pennu safonau ymddygiad i'w dilyn gan landlordiaid, personau cyfrifol ac asiantau wrth reoli eiddo ar rent. Ni ddylid cyflwyno'r cod hyd oni chaiff ei gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol (adran 28(6)). Mae adran 28(7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu dyddiad, drwy orchymyn, (heb fod yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn) y daw cod ymarfer i rym. Gall Gweinidogion Cymru hefyd addasu neu dynnu cod yn ôl; mae adran 28(8) yn darparu mai dim ond cyfarwyddyd (i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad) fydd ei angen i dynnu cod yn ôl.

¹⁷ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 19]*, 20 Ionawr 2014

37. Eglurodd y Gweinidog fod y cod:

“...is likely to be in two parts. The first part will be on the governing relationship between the landlord and the tenants—so, the landlord’s code. The second part will be around the relationship between the agents and the landlord—the agent’s code, in effect. The landlord’s code will cover issues such as insurance, tenancy agreements, repair protocols, records of payments, et cetera with the landlord, and the agent’s code will be around the advertising of properties, letting arrangements, rent collection, property, protection of client’s money, et cetera.”¹⁸

38. Wrth egluro pam y byddai’r broses ar gyfer dirymu’r cod yn dilyn gweithdrefn wahanol i’r un sy’n cyflwyno’r cyfryw god, dywedodd swyddog y Gweinidog:

“The process requires approval. The reason for the provisions around withdrawing a code may be that, for example, if there were two codes separated out in the future and the Welsh Ministers just wanted to issue one, they could withdraw the element and it was not considered that that would necessarily need to be subject to any procedure. The important thing that we wanted to get across here was the actual code itself and that the wording of the code was subject to appropriate scrutiny, consultation and approval of Welsh Ministers. So, that was the balance that we were trying to strike.”¹⁹

39. Nododd y Gweinidog y byddai dirymu cod yn weithred annhebygol, a disgwyliai mai dim ond ar sail ailgyflwyno rhywbeth newydd y byddai hynny’n digwydd.²⁰ Ychwanegodd:

“I think that the important process of this is the introduction element to the revocation, while important, and having to replace it with something else—it would come under the scrutiny of the Assembly.”²¹

¹⁸ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 73]*, 20 Ionawr 2014

¹⁹ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 81]*, 20 Ionawr 2014

²⁰ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 85]*, 20 Ionawr 2014

²¹ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 90]*, 20 Ionawr 2014

40. Hefyd, ystyriai'r Gweinidog y byddai gorchymyn Gweinidogol i gyflwyno'r cod (o dan adran 28(7)) yn "gyfrwng priodol".²²

Ein barn ni

41. Rydym yn fodlon â'r gweithdrefnau y darparwyd ar eu cyfer yn y Bil mewn perthynas ag adrannau 28(6) a 28(7).

42. Fel arfer, bydd dirymu eitemau penodol o ddeddfwriaeth ddirprwyedig yn ddarostyngedig i'r un weithdrefn ag sy'n gymwys i wneud y ddeddfwriaeth. Ni chawsom ein hargyhoeddi bod y Gweinidog wedi cyflwyno achos dros wyro oddi wrth yr egwyddor hon.

Argymhelliad 2: rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil a fyddai'n golygu cael cymeradwyaeth y Cynulliad cyn tynnu cod yn ôl o dan adran 28(8). Dylai hyn gymryd lle'r defnydd o gyfarwyddyd o dan yr adran honno a byddai'n gyson â'r gofyniad am gymeradwyaeth i gyflwyno cod yn unol ag adran 28(6).

Adran 29 – Canllawiau

43. O dan adran 29, gall Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori ag awdurdodau tai lleol ac eraill, gyflwyno, amrywio a dirymu canllawiau i awdurdodau tai lleol mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan Ran 1 y Bil. Mae gofyn i awdurdodau tai lleol roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a gyflwynir.

44. Mae'r pŵer i roi canllawiau yn eang, felly gofynnwyd i'r Gweinidog beth y gallai ei gynnwys, er mwyn gweld a fyddai rheoliadau'n fwy priodol. Rhoddodd rai enghreifftiau (drwy gyfeirio at ymatebion blaenorol), megis ystyried person addas a phriodol²³ a beth y bydd awdurdodau lleol yn ei wneud i ddechrau'r broses gofrestru.²⁴ Ychwanegodd:

"We think that we have covered all bases in terms of the detail that we understand the operation of the scheme to be in terms of what we are issuing in terms of guidance. The proposals around the registration and licensing of landlords and letting agents within the Bill ... give the right balance in the Bill. As an example, guidance could cross-reference enforcement powers

²² Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 108]*, 20 Ionawr 2014

²³ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 29]*, 20 Ionawr 2014

²⁴ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 38]*, 20 Ionawr 2014

under the housing health and safety rating system ... However, the sections of all of this are based in the guidance that we have presented and we believe that is the right balance.”²⁵

45. Dywedodd hefyd:

“...if there are elements where guidance is not strong enough to make sure it actually happens, it is something we would have to reconsider. At the moment, we believe—and the evidence we have and the detail coming forward from other schemes support this—that, in terms of the guidance element, we are not struck by the need for anything more than things being put into regulation at this point.”²⁶

46. Dywedodd swyddog y Gweinidog:

“...the guidance is for the operation by local authorities. First of all, with regard to the voluntary landlord scheme that currently operates, there is a vast amount of experience already there. That will form the basis of guidance that will be developed. However, as time goes on, as we review, monitor and evaluate, it will be important to enhance that guidance. We will learn, make continuous improvement and have good practice and best practice, and it is important that we spread that. So, the guidance could cover anything from the process they are adopting to publicity, promotion of the scheme and so on.”²⁷

47. Nododd swyddog y Gweinidog hefyd y dylai awdurdodau lleol:

“...must have regard to guidance, and, when you read that in conjunction with case law, it is the case that they must follow the guidance unless they have good or cogent reasons not to do so. So, while it is a platform for spreading good practice, it will have a real status.”²⁸

Ein barn ni

48. Mae'r pŵer yn adran 29 yn eang iawn. Oherwydd yr ystod eang o bwerau i wneud rheoliadau sydd ar gael i'r Gweinidog, rydym yn fodlon y byddent yn cael eu defnyddio i ymdrin â materion polisi o

²⁵ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 114]*, 20 Ionawr 2014

²⁶ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 119]*, 20 Ionawr 2014

²⁷ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 115]*, 20 Ionawr 2014

²⁸ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 121]*, 20 Ionawr 2014

sylwedd ac y câi canllawiau eu defnyddio i ymdrin â materion yn ymwneud ag arfer gorau ac ati. Byddem yn bryderus pe na bai hyn yn wir.

49. Rydym yn fodlon â'r pŵer i gyflwyno canllawiau o dan adran 29.

Adran 30 – Cyfarwyddiadau

50. Mae adran 30 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i awdurdod tai lleol ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau o dan Ran 1 y Bil. Rhaid i'r awdurdod tai lleol gydymffurfio â chyfarwyddiau. Nid yw'r cyfarwyddiadau'n ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.

51. Dynododd y Gweinidog y gellid defnyddio'r cyfarwyddiadau pan fo awdurdod lleol yn amharod i ddilyn y canllawiau neu'n gwneud hynny i raddau bach yn unig.²⁹ Ni chredai fod pwerau o'r fath yn unigryw,³⁰ a dywedodd:

"I think that what we are trying to achieve here is an element of a backstop position ... we do not see, currently, the need for this provision in terms of ... having to use this. However, subject to it not being implemented, I think it would be foolish not to have a position whereby we could take action, should we need to do so."³¹

52. Nid oedd y Gweinidog yn rhagweld amser pan fyddai Gweinidogion Cymru eisiau cyflwyno rheoliadau ledled Cymru, yn hytrach na chyfarwyddiadau.³²

Ein barn ni

53. Rydym yn ystyried bod rhoi pwerau cyfarwyddo yn adran 30 yn briodol ac yn adlewyrchu arfer cyffredin.

Adran 31 – Rheoliadau ar ffioedd

54. Mae adran 31 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu'r ffioedd sy'n daladwy i awdurdod tai lleol gan berson sy'n cyflwyno cais i fod yn gofrestredig (adran 7(1)(c)) neu'n

²⁹ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 126-127]*, 20 Ionawr 2014

³⁰ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 129]*, 20 Ionawr 2014

³¹ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 129]*, 20 Ionawr 2014

³² Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 132-133]*, 20 Ionawr 2014

drwyddedig (adran 10(2)(c)). Mae'r pwerau i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol am eu bod, yn ôl y Memorandwm Esboniadol, yn rhagnodi "manyllion technegol a all newid o bryd i'w gilydd".³³

55. Byddai adran 31(1)(b) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddirprwyo'r gwaith o bennu ffioedd i drydydd parti.

56. Eglurodd y Gweinidog y sail resymegol dros y dull a fabwysiadwyd:

"The setting of fees is an operational matter, we believe, and any fees are liable to change over a period of time—short or long; we do not know that currently. Therefore, the power to amend these fees is by means of subordinate legislation. Having the initial fee on the face of the Bill would cause confusion in the event of the fee subsequently changing, so that is why we needed the flexibility of not having it on the face of the Bill. It is usual practice for fees to be set in subordinate legislation. This follows common practice within Welsh legislation. In terms of delegating the setting of fees to a third party, a general power is needed; it could potentially relate to the training element of achieving licensing status. Third parties will be involved in that process of training, as long as they are approved training providers. Therefore, we believe that it is important that the delegation to give the flexibility to amend the fees is within the Bill's structure."³⁴

57. Ysgrifennodd y Gweinidog i'r Pwyllgor ar 14 Chwefror 2014 i egluro'r ddarpariaeth yn adran 31(1)(b) sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddirprwyo'r gwaith o bennu ffioedd. Dywedodd:

"Whilst the intention initially will be for the Welsh Ministers to set the fees, any fees will need to be kept under review. The case of *Hemming*...underlines the fact that any registration and licence fees must be proportionate to the costs of the actual authorisation 'procedures and formalities'. As such, it may be that in future the Welsh Ministers might consider that the local housing authorities themselves would be best placed to review the costs of these procedures and formalities and set the fees

³³ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 49

³⁴ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 140]*, 20 Ionawr 2014

accordingly. This provision would enable the Welsh Ministers to empower the authorities to do so.”

Ein barn ni

58. Rydym yn nodi nad yw'r Bil yn cynnwys nemor ddim manylion ar ei wyneb mewn perthynas â ffioedd naill ai drwy adran 31 na'r pwerau i wneud rheoliadau perthnasol o dan adrannau 7(1)(c) a 10(2)(c). Mae hwn yn faes polisi pwysig ac yn ein barn ni, mae angen mynegi gwybodaeth ynglŷn â'r egwyddorion sy'n ymwneud â'r defnydd o ffioedd yn fwy eglur ar wyneb y Bil.

59. Yn ogystal, o ystyried bod materion ariannol yn gysylltiedig â hyn, credwn y dylai'r rheoliadau fod yn ddarostyngedig i broses graffu fwy trwyadl.

Argymhelliad 3: yn absenoldeb manylion ar wyneb y Bil ac o ystyried bod materion ariannol yn gysylltiedig â hyn, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i reoliadau a wneir o dan adran 7(1)(c) ac adran 10(2)(c).

Rhan 2 – Digartrefedd

Adran 36 – Dyletswydd i gynnal adolygiad digartrefedd a llunio strategaeth ddigartrefedd

60. Mae Rhan 2 y Bil yn darparu ar gyfer trefniadau mewn perthynas â digartrefedd. Deillia adrannau 36 i 38 o *Ddeddf Digartrefedd 2002*. Maent yn darparu bod angen i awdurdod lleol gynnal adolygiad digartrefedd ar gyfer ei ardal yn achlysurol, a pharatoi a chyhoeddi strategaeth ddigartrefedd ar sail canlyniadau'r adolygiad. Rhaid cyhoeddi strategaeth newydd bob pedair blynedd. Diwygiwyd y cyfnod o bum mlynedd i gyd-fynd â chylchoedd cynllunio eraill awdurdodau tai lleol.³⁵

61. Mae adran 36(2) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau tai lleol fabwysiadu strategaeth ddigartrefedd yn 2018 ac ym mhob pedwaredd flwyddyn ar ôl hynny. Mae adran 36(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r amserlenni hynny drwy orchymyn y byddai'r weithdrefn negyddol yn gymwys iddo, oherwydd, yn ôl y Memorandwm

³⁵ Memorandwm Esboniadol, Atodiad C – Nodiadau Esboniadol, tudalen 167

Esboniadol, mae'n rhagnodi "manyion technegol a all newid o bryd i'w gilydd".³⁶

62. Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro pam y mae'r pŵer i wneud gorchmynion yn adran 36(3) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Dywedodd:

"...what we have tried to do is look on balance at what current legislation is in place and what new elements of this we have to introduce to bring the raft of homelessness legislation together. We have tried to balance that in terms of the affirmative and negative procedures throughout this section, too. This section prescribes technical matters of detail in this area, which may change from time to time, particularly around time levels, and, again, we are unsighted about what the future may hold in terms of homelessness. Therefore, we may have to review that at a further point in time in order to make the appropriate changes to the Bill."³⁷

Ein barn ni

63. Rydym yn canmol y Gweinidog am gyflwyno cylchdro ar wyneb y Bil ar gyfer cynnal adolygiad digartrefedd. Yn ein barn ni, mae hyn yn arfer da.

64. Mae gan y Pwyllgor arfer sydd wedi'i hen sefydlu o geisio'r defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth a fyddai'n newid deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, ymdrinnir yn rheolaidd â materion amseru mewn is-ddeddfwriaeth y mae'r weithdrefn negyddol yn gymwys iddi.

65. O ystyried bod y cylchdro adolygu wedi'i osod ar wyneb y Bil, credwn fod y defnydd o'r weithdrefn negyddol yn ffordd gymesur o ddiwygio'r amserlen ar gyfer cynnal adolygiadau.

Pennod 2 – Cymorth i bobl sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd ac Adran 69 – Gweithdrefn ar gyfer adolygiad

66. Mae Pennod 2 yn diwygio dyletswyddau tuag at bobl a effeithir gan ddigartrefedd. Yn benodol, gosodir dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i atal a lliniaru digartrefedd i bob

³⁶ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 49

³⁷ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 154]*, 20 Ionawr 2014

ceisydd cymwys, yn cynnwys ceiswyr heb angen blaenoriaethol neu sy'n fwriadol ddigartref. Deillia nifer o'r adrannau o *Ddeddf Tai 1996*, er bod rhai ohonynt wedi'u moderneiddio a'u diweddarau.

67. Mae Pennod 2 yn cynnwys wyth o bwerau i wneud rheoliadau yn adrannau 43, 45, 55, 61, 63 a 64.³⁸ Mae pob un o'r adrannau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

68. Mae adran 69(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, drwy reoliadau, y gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth gynnal adolygiad o benderfyniad gan awdurdod lleol ynglŷn â chais am gymorth. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol am eu bod yn rhagnodi "manylion technegol a all newid o bryd i'w gilydd",³⁹ pwynt a gadarnhawyd gan swyddog y Gweinidog.⁴⁰ Ychwanegodd ei bod yn ymddangos yn synhwyrol i osod hyn o dan y weithdrefn negyddol o ystyried y manylion a fyddai ynghlwm wrth hawl i adolygu penderfyniad.⁴¹

69. Nododd swyddog y Gweinidog fod nifer o'r darpariaethau sy'n ymwneud â digartrefedd yn ailddatgan Rhan 7 o *Ddeddf 1996* ac roedd hon yn enghraifft o'r fath. Ychwanegodd:

"...from the legal perspective, I would not see any reason why we would vary or depart very much from the existing subordinate legislation."⁴²

70. Cofnod y Trafodionunodd y Gweinidog i ailystyried y defnydd o'r weithdrefn negyddol ar gyfer y pŵer yn adran 69 yn sgîl yr awgrym y byddai diddordeb gan y Cynulliad mewn gweithdrefnau adolygu o ystyried y gwaith achos y mae Aelodau'r Cynulliad yn ei dderbyn.⁴³ Yn ei lythyr ar 14 Chwefror 2014, dywedodd y Gweinidog ei fod yn ystyried newid y weithdrefn o negyddol i gadarnhaol, yn amodol ar ein barn ni.

³⁸ Adran 43 – A yw'n rhesymol parhau i feddiannu llety; Adran 45 – Addasrwydd llety; Adran 55 – Angen blaenoriaethol am lety; Adran 61 – Penderfynu diystyru bwriadoldeb; Adran 63 – Atgyfeirio achos at awdurdod tai lleol arall ac Adran 64 – Cysylltiad lleol

³⁹ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 52

⁴⁰ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 163]*, 20 Ionawr 2014

⁴¹ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 165]*, 20 Ionawr 2014

⁴² Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 173]*, 20 Ionawr 2014

⁴³ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 167]*, 20 Ionawr 2014

Ein barn ni

71. Ar bwynt cyffredinol o egwyddor, ni chredwn fod ailddatgan adran benodol o Ddeddf Senedd y DU neu Ddeddf Cynulliad sy'n bodoli eisoes mewn Bil newydd yn ddigon o reswm i gymhwyso'r un weithdrefn i unrhyw swyddogaeth is-ddeddfwriaethol y mae'n ei chynnwys. Dylai'r weithdrefn a gymhwysir fod yn seiliedig ar ystod o ffactorau, yn cynnwys beth sydd fwyaf addas yng nghyd-destun y Bil newydd a'r lefel o fanylder sydd ynddo.

72. Rydym yn nodi bod y Gweinidog yn ystyried newid y weithdrefn o negyddol i gadarnhaol mewn perthynas â'r rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 69(1). Rydym yn cefnogi ac yn croesawu safbwynt y Gweinidog.

Argymhelliad 4: rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 69(1).

Adran 81 – Canllawiau

73. Mae adran 81 yn darparu y dylai awdurdodau tai lleol ystyried canllawiau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag amcanion digartrefedd yr awdurdod. Rhaid cyhoeddi'r canllawiau hyn, a chaiff Gweinidogion Cymru eu hadolygu neu eu tynnu'n ôl. Eglurodd y Gweinidog fod y pŵer i gyflwyno canllawiau yn adran 81 y Bil yn bŵer sy'n bodoli'n barod o dan adran 182 o *Ddeddf Tai 1996*,⁴⁴ wedi'i lunio'n benodol ar gyfer y modd y dylai awdurdodau lleol gyflawni eu swyddogaethau a chymhwyso gwahanol offerynnau statudol yn ymarferol.⁴⁵ Dynododd swyddog y Gweinidog y bydd angen diweddarau'r canllawiau presennol.⁴⁶

Ein barn

74. Rydym yn fodlon â'r pŵer i gyflwyno canllawiau o dan adran 81.

⁴⁴ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 181]*, 20 Ionawr 2014

⁴⁵ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 181]*, 20 Ionawr 2014

⁴⁶ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 183]*, 20 Ionawr 2014

Rhan 3 – Sipsiwn a Theithwyr

Adran 89 - Canllawiau

75. Mae adran 89 yn cynnwys pŵer cyffredinol i gyflwyno canllawiau mewn perthynas â swyddogaethau awdurdodau lleol yn ymwneud â sipsiwn a theithwyr o dan Ran 3 y Bil.

76. Eglurodd y Gweinidog:

“The most important element of the guidance will be that it is important to consult directly with Gypsies and Travellers in all types of accommodation within a local authority area and organisations that may support them. So, that is a fundamental change to what we are currently seeing. There is often a basis of knowledge based upon a snapshot in time for Gypsy and Traveller communities. The guidance will be about the process of a more holistic view of the needs basis across an authority over a period of time, as opposed to one day in a year.”⁴⁷

Ein barn ni

77. Rydym yn fodlon â'r pŵer i gyflwyno canllawiau o dan adran 89.

Rhan 4 – Safonau ar gyfer Tai Cymdeithasol

Adrannau 94 – Safonau; 95 – Canllawiau; 96 – Ymgynghori ar safonau a chanllawiau

78. Mae adran 94 yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safonau i'w bodloni gan awdurdodau tai lleol mewn cysylltiad ag ansawdd y llety a ddarperir, a'r rhent a'r ffioedd gwasanaeth sy'n daladwy. Gall Gweinidogion Cymru adolygu a thynnu'r safonau yn ôl o bryd i'w gilydd a rhaid iddynt gyhoeddi'r safonau a bennir ganddynt. Byddai'r safonau hyn yn cael eu rhoi mewn grym gan Weinidogion Cymru drwy bwerau cyfarwyddo ac ymyrryd helaeth iawn, yn cynnwys pwerau mynediad ac archwilio. Ni fyddai unrhyw weithdrefn Cynulliad yn gymwys i'r safonau hyn.

79. Mae adran 95 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno canllawiau i awdurdodau tai lleol ynglŷn â mater sy'n ymwneud â safon a hybu'r safon honno. Caiff Gweinidogion Cymru ystyried y canllawiau y maent hwy eu hunain wedi'u cyflwyno wrth ystyried a yw awdurdod

⁴⁷ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 193]*, 20 Ionawr 2014

tai lleol wedi cydymffurfio â'r safonau. Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r canllawiau neu eu tynnu'n ôl a rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau a gyflwynwyd. Mae adran 96 yn pennu'r trefniadau ar gyfer ymgynghori ar safonau a chanllawiau.

80. Wrth ystyried y pŵer yn adran 94 a nodi darpariaeth debyg yn adran 28 y Bil, gofynnwyd i'r Gweinidog pa un a fyddai'r weithdrefn gadarnhaol yn fwy priodol.

81. Dywedodd y Gweinidog:

"My response initially would be 'no'; that is the way that we have laid these procedures to move forward. May I try to explain our processes behind that? On the standards for social housing, what we have tried to do is to put them on the same level, in terms of setting the approach, as what is in the standards for RSLs, so they broadly reflect each other. That is why we have linked in very strongly the approach where we would have the legislative programme that would take effect for local authorities and RSLs to be similar, if not the same, in terms of taking this forward. So, recognising your point across other elements of the Bill, we believe that this section is strongly related between RSLs and local authorities and that is why we have tried to mirror the legislation around that."⁴⁸

82. Pan ofynnwyd iddo a oedd y ddyletswydd yn adran 96 y Bil i ymgynghori ar safonau a chanllawiau yn cymryd lle gwaith craffu priodol ar y cynigion, dywedodd y Gweinidog:

"We do not believe that that is the case. In relation to the statutory licensing conditions and failure to give rise to enforcement action, again, these are conditions that would mirror both RSLs and local authorities. So, we are not doing something in addition; we are trying to mirror the processes to get them on a level playing field in terms of legislation moving forward."⁴⁹

83. Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

⁴⁸ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 195]*, 20 Ionawr 2014; Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yw 'RSL'.

⁴⁹ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 197]*, 20 Ionawr 2014

“...we did have regard to section 33C, in this particular instance, of the Housing Act 1996, which puts a similar consultation requirement in relation to RSL standards. That was introduced by the Housing (Wales) Measure 2011.”⁵⁰

84. Pan ofynnwyd iddo ynglŷn â'r posibilrwydd y câi Gweinidogion Cymru ganiatâd i ddiystyru eu canllawiau eu hunain yn rhinwedd adran 95(2), dywedodd y Gweinidog:

“That is not what it is meant to suggest, Chair. It is perhaps the way that we have read it, in terms of the detail. Let me try to explain: in the guidance issued, in some cases, we believe, there will be a minimum standard and there will be a more gold-plated approach to best practice. We would expect guidance to be applied when we were considering at least minimum standards and, therefore, we could take into consideration the issues where gold-plated standards might or might not apply.”⁵¹

85. Yn ei lythyr ar 14 Chwefror 2014, eglurodd y Gweinidog ei sail resymegol dros y dull hwn o weithredu:

“Firstly, there is no obligation upon the Welsh Ministers to issue guidance...

“The purpose of the guidance is not to bind the Welsh Ministers. Therefore in assessing whether a local housing authority has met a standard, under section 95(2), Welsh Ministers may have regard to the guidance. There is no need for a duty to be placed upon the Welsh Ministers to have regard to the guidance.

“There are 3 scenarios to consider:

- (i) As noted above, guidance may not have been issued;
- (ii) Where guidance has been issued, the Welsh Ministers may be able to assess whether or not the standard has been met simply by reference to the standard. In which case, there would be no need for

⁵⁰ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 198]*, 20 Ionawr 2014

⁵¹ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 201]*, 20 Ionawr 2014

the Welsh Ministers to have regard to the guidance at all.

- (iii) Alternatively, there may be good reasons why a local housing authority has not complied with the guidance...”

86. Aeth y Gweinidog yn ei flaen i egluro yn y llythyr fod y ddarpariaeth yn adlewyrchiad o'r hyn a geir ym *Mesur Tai (Cymru) 2011* ac na chyflwynwyd unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddarpariaeth. Teimlai hefyd na cheid unrhyw fudd o ddiwygio'r ddarpariaeth ddrafft yn adran 95(2).

Ein barn ni

87. Mae adran 28 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno cod ymarfer sy'n pennu safonau'n ymwneud â rheoli eiddo rhent. Cyn y gellir cyflwyno'r cod, rhaid i'r Cynulliad basio cynnig yn cymeradwyo'r drafft.

88. Mae adran 94 yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safonau i'w bodloni gan awdurdodau tai lleol mewn cysylltiad ag ansawdd y llety a ddarperir, a'r rhent a'r ffioedd gwasanaeth sy'n daladwy. Byddai Gweinidogion Cymru yn rhoi'r safonau hyn mewn grym drwy bwerau cyfarwyddo ac ymyrryd helaeth iawn, yn cynnwys pwerau mynediad ac archwilio. Ni fyddai unrhyw weithdrefn Cynulliad yn berthnasol i'r safonau hyn.

89. Mae'r cyferbyniad rhwng y ddwy ffordd o fynd ati'n drawiadol. Mae'r hyn sydd yn adran 28 yn dilyn yr hyn a geir yn adran 26 o *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011*, sy'n darparu ar gyfer pennu safonau drwy reoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

90. Ni allwn weld unrhyw reswm dros y gwahaniaeth rhwng dull adran 28 ac adran 94 o weithredu. Credwn fod pennu safonau yn fater polisi pwysig. Fel yn adran 28 y Bil ac adran 26 o *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011*, ystyriwn y dylai pennu safonau fod yn ddarostyngedig i broses graffu drylwyr. Mater i Lywodraeth Cymru ei benderfynu yw'r union fath o is-ddeddfwriaeth i'w defnyddio, ond pa fath bynnag a ddewisir, dylai fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Argymhelliad 5: rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i bennu safonau o dan adran 94 drwy gyfrwng is-

ddeddfwriaeth y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys iddi.

91. Mae'n ymddangos i ni fod adran 95(2) yn ddarpariaeth anarferol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddiystyru eu canllawiau eu hunain. Nodwn dystiolaeth y Gweinidog nad dyma'r bwriad. Gan hynny, ystyriwn y byddai adran 95(2) yn elwa o gael ei hailddrafftio fel na fydd modd camgymryd ei bwriad ac i sicrhau eglurder llwyr ynglŷn â'r modd y gwneir defnydd ymarferol o adran 95(2).

Argymhelliad 6: rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i sicrhau bod y bwriad sy'n sail i adran 95(2) wedi'i ddatgan yn fwy eglur ar wyneb y Bil.

Rhan 7 – Y Dreth Gyngor ar gyfer Anheddau Gwag

Adran 122 – Swm y dreth sy'n daladwy ar gyfer anheddau gwag

92. Mae adran 122 yn diwygio *Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992* drwy fewnosod adran newydd 12A. Mae'n galluogi cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, drwy benderfyniad, i gynyddu swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar anheddau gwag hirdymor yn eu hardal o 50%. Diffinnir anheddau gwag hirdymor fel anheddau heb eu meddiannu a heb eu dodrefnu'n sylweddol am gyfnod parhaol o flwyddyn fan lleiaf. Mae'r adran hefyd yn pennu'r trefniadau ar gyfer gwneud, amrywio neu ddirymu penderfyniad a wnaed o dan yr adran.

93. Mae adran newydd 12A(2) o Ddeddf 1992 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau'n rhagnodi categorïau o anheddau na ellir codi'r dreth gyngor ychwanegol hon arnynt. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol am eu bod yn rhagnodi "manyion technegol a all newid o bryd i'w gilydd".⁵²

94. O dan adran newydd 12A(10) o Ddeddf 1992, ni fydd dodrefnu neu feddiannu annedd am un neu fwy o gyfnodau o chwe wythnos neu lai yn ystod y flwyddyn honno yn effeithio ar ei statws fel annedd gwag hirdymor. Caiff Gweinidogion Cymru o dan adran 12A(11), drwy reoliadau, bennu cyfnod gwahanol, o fwy na chwe wythnos, yn lle'r cyfnod o chwe wythnos. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r

⁵² Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 52

rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol am eu bod yn rhagnodi "manyion technegol a all newid o bryd i'w gilydd".⁵³

95. Wrth egluro'r defnydd o'r weithdrefn negyddol ar gyfer rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran newydd 12A(2), dywedodd y Gweinidog:

"The issue around this procedure is that we have tried to mirror the process where the exemptions on the standard rate of council tax apply, which is also a negative procedure, and we have used the same procedure for council tax on empty dwellings."⁵⁴

96. Ychwanegodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog:

"...it is inserting provision into the Local Government Finance Act 1992, so it sits alongside existing provision that is subject to the negative procedure. You have to view it in the context of the legislation that it is going into."⁵⁵

Ein barn ni

97. Rydym yn fodlon i'r pwerau i wneud rheoliadau yn adran newydd 12A o *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992* (a fewnosodwyd yn adran 122 y Bil) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Rhan 8 – Amrywiol a Chyffredinol

Adran 127 – Cychwyn

98. Mae adran 127 yn darparu ar gyfer cychwyn y Bil drwy Orchymyn, heb fod yn ddarostyngedig i weithdrefn Cynulliad. Er hynny, byddai adran 127(4)(b) yn caniatáu cynnwys darpariaethau darfodol, trosiannol neu arbed.

99. Pan holwyd y Gweinidog ynglŷn â darpariaethau adran 127(4)(b), dywedodd:

"...the powers that you are talking about relating to section 127(4)(b) do not allow Ministers to make consequential,

⁵³ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 52

⁵⁴ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 212]*, 20 Ionawr 2014

⁵⁵ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 215]*, 20 Ionawr 2014

incidental or supplementary provisions in connection with the coming into force of the particular provisions.”⁵⁶

100. Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

“...the powers of transitory, transitional or saving provisions must be in connection with the commencement insofar as they are exercised under section 127. There are separate powers in section 126.”⁵⁷

Ein barn ni

101. Mae’n arfer safonol na ragnodir unrhyw weithdrefn ar gyfer gorchmynion cychwyn ac rydym yn fodlon â’r dull hwn o weithredu.

102. Gallai unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud o dan adran 127(4)(b) gael ei gwneud hefyd o dan adran 126. Y weithdrefn a fyddai’n gymwys i reoliadau o dan adran 126 fel arfer fyddai’r weithdrefn negyddol, oni bai bod y cyfryw reoliadau’n ceisio newid deddfwriaeth sylfaenol, ac mewn achos o’r fath, byddai’r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys yn unol ag adran 124(3)(d).

103. Ar sail yr esboniad a ddyfynnwyd ym mharagraff 100 a bod y pwerau i’w defnyddio mewn ffordd gyfyngedig, rydym yn fodlon. Yn yr achos hwn, fel mewn achosion eraill, rydym wedi gofyn i’n swyddogion dynnu ein sylw at unrhyw ddefnydd o orchmynion cychwyn y gallai’r Pwyllgor eu hystyried yn amhriodol.

⁵⁶ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 227]*, 20 Ionawr 2014

⁵⁷ Y Pwyllgor MCD, *Cofnod y Trafodion [paragraff 228]*, 20 Ionawr 2014